Deddf Cwmnïau 2006

Gweithrediadau

1af Hydref 2007

Cwestyinau Cyffredin **GWASANAETH BERR**

Cyfyngu mynediad i'r Gofrestr Aelodau (neu cyfranddeiliaid) Adrannau 116 - 119

I bwy mae hyn yn gymwys?
Mae'r cyfyngiad hwn yn gymwys i bob cais allanol am gael gweld y Gofrestr Aelodau o'r tu allan i'r cwmni.

O ganlyniad i gais am gael gweld y gofrestr aelodau, pa wybodaeth y caiff y cwmni ofyn amdani?
Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd, neu os sefydliad sydd dan sylw, am enw rhyw unigolyn, a hefyd diben y cais ac a gaiff yr wybodaeth ei datgelu. Mae'n drosedd i wneud datganiad anwir wrth roi'r manylion sydd angen ar gyfer y datgelu.

Pa opsiynau sydd gan y cwmni gyda golwg ar ddatgelu gwybodaeth y gofrestr aelodau?
Rhaid i'r cwmni naill ai cydymffurfio â'r cais yn ddiymdroi neu fe gaiff wneud cais i'r llysoedd am gyfyngu mynediad i'r Gofrestr o fewn 5 diwrnod gwaith.

Pryd byddai'r llys yn caniatáu i'r cwmni beidio â chydymffurfio â'r cais am fynediad?
Dim ond os yw'n fodlon na cheisir y mynediad at ddiben priodol y byddai'r llys yn caniatáu i'r cwmni beidio â chydymffurfio.

Beth yw diben priodol o ran mynediad i gofrestr aelodau'r cwmni?
Mater i'r llys ei benderfynu yw a oes diben priodol i gais penodol.

Arolwg Busnes ac Adroddiad y Cyfarwyddwr

Bydd disgwyl i bob cyfrifon cwmni sydd â chyfnod adrodd yn dechrau ar neu wedi 1 Hydref 2007 gynnwys Arolwg Busnes, ac eithrio cyfrifon cwmnïau bach.

.

I bwy mae hyn yn gymwys?
Rhaid i Adroddiad y Cyfarwyddwyr o fewn y cyfrifon gynnwys Arolwg Busnes. Mae hyn yn gymwys i bob cwmni, ar wahân i rai sy'n ffeilio cyfrifon cwmni bach.

Pryd daw hyn i rym?
Bydd yr Arolwg Busnes yn gymwys i bob cyfrifon sy'n bodloni cyfnodau cyfrifeg yn dechrau ar neu wedi 1 Hydref 2007.

Beth yw Arolwg Busnes?
Mae Arolwg Busnes yn adolygiad teg o fusnes y cwmni yn ystod y cyfnod cyfrifeg. Rhaid iddo fod yn ddadansoddiad cytbwys a chynhwysfawr o ddatblygiad a chyflawniad y cwmni, gyda disgrifiad o'r prif risgiau. (Gweler Adran 417 o Ddeddf Cwmnïau 2006).

Tabl A

Beth yw Tabl A?
Rhaid i bob cwmni fabwysiadu Erthyglau Cymdeithasiad pan fyddant yn corffori. Mae Tablau A i F Rheoliadau Cwmnïau (Tablau A i F) 1985 (a elwir Tabl A fel arfer) yn nodi erthyglau enghreifftiol safonol, y gall cwmnïau eu defnyddio fel sail i'w herthyglau eu hunain. Os na fydd cwmnïau yn cofrestru eu herthyglau cymdeithasiad eu hunain, bydd Tabl A yn berthnasol yn eu habsenoldeb.

Pam y diwygiwyd Tabl A?
Cafodd Tablau A i F eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â newidiadau a wneir i'r gyfraith gwmnïau. Aeth y Llywodraeth ati i lunio rheoliadau ym mis Medi 2007 a oedd yn gwneud diwygiadau i reoliadau Tabl A er mwyn galluogi cwmnïau newydd sy'n cael eu sefydlu ar 1 Hydref 2007 neu wedi hynny, i fanteisio ar Ddarnau o Ddeddf Cwmnïau 2006 a ddaeth i rym erbyn y dyddiad hwnnw, ac i osgoi gwrthdaro gyda'r Darnau hyn.

Beth sydd wedi newid?
Nodir y newidiadau a wnaethpwyd yn Rheoliadau Cwmnïau (Tablau A i F) (Diwygiad) 2007 a Rheoliadau Cwmnïau (Tablau A i F) (Diwygiad) (Rhif 2) 2007, sydd ar gael ar wefan OPSI a / neu a nodir mewn datganiad ar wefan BERR.

I bwy y mae Tabl A newydd yn berthnasol?
Mae Tabl A newydd yn berthnasol i gwmnïau newydd a gorfforwyd ar 1 Hydref 2007 neu ar ôl hynny, na fyddant yn cofrestru eu herthyglau eu hunain pan fyddant yn gwneud cais i gael eu corffori. Nid oes yn rhaid i gwmnïau ddefnyddio Tabl A fodd bynnag ac mae modd iddynt ysgrifennu eu herthyglau eu hunain neu eu seilio ar erthyglau Tabl A. Os na fydd cwmnïau yn cofrestru eu herthyglau cymdeithasiad eu hunain, bydd Tabl A yn berthnasol yn eu habsenoldeb

Pryd gafodd y Tabl A newydd ei gyflwyno?
Daeth y Tabl A newydd i rym ar ddydd Llun, 1 Hydref 2007.

Rydw i ar fin cofrestru cwmni newydd – sut mae hyn yn effeithio arnaf?
Mae'r newidiadau a wnaethpwyd gan y Llywodraeth i Dabl A ym mis Medi 2007 wedi sicrhau bod yr erthyglau a fydd yn berthnasol pan na fydd cwmni yn cofrestru ei erthyglau ei hun, yn cyd-fynd â'r gyfraith gwmnïau a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2007.

Sut fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gwmni sy'n bodoli eisoes?
Nid yw'r Tabl A newydd yn effeithio ar gwmnïau sy'n bodoli eisoes oni bai eu bod yn dewis ei fabwysiadu. Gall cwmnïau sy'n bodoli eisoes ddewis

diwygio'u herthyglau cymdeithasiad presennol, trwy gyfrwng penderfyniad arbennig, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r newidiadau a wnaethpwyd i'r gyfraith fel y'u mynegwyd yn y Tabl A diwygiedig.

Mae gwybodaeth manwl pellach ar gael ar wefan Tŷ'r Cwmnïau: www.companieshouse.gov.uk

Sut mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â'r erthyglau enghreifftiol drafft newydd a fydd yn dod i rym ar 1 Hydref 2009?
Bydd y rheoliadau sy'n nodi'r erthyglau enghreifftiol yn cael eu gwneud ym mis Rhagfyr 2008 a byddant yn cychwyn ar 1 Hydref 2009. Ni fydd y newidiadau i Dabl A yn cael unrhyw effaith ar yr erthyglau enghreifftiol nac ar amseriad eu cyflwyno. Pan fydd yr erthyglau enghreifftiol yn dod i rym yn 2009 nesaf, byddant yn disodli Tabl A fel yr erthyglau rhagosodedig: ond ni fydd cwmni sydd eisoes â Thabl A diwygiedig yn erthyglau iddo, yn cael ei effeithio gan yr erthyglau enghreifftiol oni bai ei fod yn dewis newid iddynt.

A yw Tabl A ar gael ar wefan Tŷ'r Cwmnïau?
Ydy, mae fersiwn diweddaraf Tabl A ar gael ar wefan Tŷ'r Cwmnïau.

Penderfyniadau Rhan 13

Pryd daeth Rhan 13 ar benderfyniadau i rym?

1 Hydref 2007.

Beth yw'r mwyafrif angenrheidiol ar gyfer penderfyniadau ysgrifenedig?

Bydd y mwyafrif sydd angen yn debyg i'r mwyafrif ar gyfer cyfarfodydd cyfranddeiliaid – mwyafrif syml o'r cyfrannau cymwys ar gyfer penderfyniadau arferol, neu 75% ar gyfer penderfyniadau arbennig.

Oes angen i benderfyniadau ysgrifenedig gael eu llofnodi gan bob un o'r unigolion sydd wedi'u henwi ar y penderfyniad?

Dim ond un llofnod sydd eisiau ar benderfyniadau ysgrifenedig a gaiff eu mabwysiadu ar neu wedi 1 Hydref 2007 (o dan Ddeddf Cwmnïau 2006) (er y gall fod mwy o lofnodion arnynt).

A fydd yn rhaid rhoi gwybod i'r archwilwyr ariannol am benderfyniadau ysgrifenedig?

Bydd, caiff Adran 390 o Ddeddf Cwmnïau 85 ei diwygio fel bod hawl o hyd gan archwilwyr ariannol i dderbyn pob gohebiaeth a ddosberthir ymhlith yr aelodau gyda phenderfyniadau ysgrifenedig.

Oes angen o hyd i'm cwmni gynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol?

Does dim angen i gwmnïau preifat yn cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol mwyach os nad oes rhwymedigaeth i wneud felly yn ei erthyglau. Rhaid i gwmni presennol barhau i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol oni bai ei fod

yn newid ei erthyglau i ddileu pob rhyw gyfeiriad at Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol. Mae'n rhaid i gwmnïau cyhoeddus gynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol.

Mae adran 296 o'r Ddeddf newydd yn cyfeirio at 'ddogfen wedi'i dilysu'. Beth yw hyn?

Mae 'dogfen wedi'i dilysu' yn cyfeirio at gymeradwyaeth yr aelodau o'r penderfyniad. Caiff yr aelodau naill ai llofnodi copi papur o'r penderfyniad neu ddangos eu cymeradwyaeth o fersiwn electronig. Dyma pam y dywedir dilysu yn hytrach na llofnodi.

Ydy'r geiriad wedi newid ar benderfyniadau arbennig i newid enwau cwmnïau?

Cafodd fformatiau'r penderfyniad arbennig a'r penderfyniad ysgrifenedig eu diweddaru ill dau ar 1 Hydref 2007 ac maen nhw ar gael ar wefan Tŷ'r Cwmnïau. Mae'r fersiwn ar-lein o Ddeddf Cwmnïau 2006 i'w weld ar wefan OPSI (www.opsi.gov.uk/acts), ac mae Pennod 5 adrannau 77-81 yn cyfeirio at newid enw.

Beth yw'r cyfnod rhybudd ar gyfer cyfarfodydd cyfranddeiliaid?

Bellach, gall cyfarfodydd cyfranddeiliaid cwmnïau preifat gael eu cynnal drwy roi rhybudd o 14 diwrnod, oni bai bod trefniadau gwahanol wedi'u pennu yn Erthyglau'r cwmni.

A gafodd penderfyniadau drwy bleidlais eu diddymu?

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006 mae penderfyniadau drwy bleidlais, heb gynnwys adran 80a (bellach adran 549-55 o Ddeddf 2006), wedi eu diddymu.

O 1 Hydref 2007 ymlaen, nid oes angen mwyach i bedwar o'r pum math o benderfyniad drwy bleidlais gael eu ffeilio ar gyfer cwmnïau cyfyngedig preifat - sef:

Hepgor gosod cyfrifon ac adroddiadau gerbron cyfarfod cyffredinol (ad252)
Hepgor cynnal cyfarfodydd cyffredinol blynyddol (ad366a)
Lleihau'r mwyafrif sydd eisiau i awdurdodi cyfarfod ar fyr rybudd (ad369(4) neu 378(3))
Hepgor penodi archwilwyr ariannol bob blwyddyn (ad386)

Ond os cânt eu ffeilio, fe'u rhoir ar y cofnod cyhoeddus.

Beth fydd yn digwydd i benderfyniadau drwy bleidlais a gafodd eu mabwysiadu gan y cwmni'n barod?

Lle bo cwmni eisoes wedi ffeilio penderfyniadau drwy bleidlais, byddant yn dal mewn grym ac ni fydd angen i'r cwmni ddiwygio'r erthyglau. Bydd penderfyniadau drwy bleidlais a gafodd eu cylchredeg cyn 1 Hydref 2007 yn dal yn dderbyniol i'w ffeilio.

Gan fod penderfyniadau drwy bleidlais wedi'u diddymu, oes rhaid i'r cwmni roi cyfrifon gerbron yr aelodau etc o hyd?

Fe erys y cyfrifoldeb am gyflenwi cyfrifon i rai pobl. Rhaid i bob cwmni anfon copi o'i gyfrifon a'i adroddiadau blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol at -

- bob aelod o'r cwmni
- pob dyledebydd yn y cwmni, a
- phawb sydd â hawl i dderbyn rhybudd am gyfarfodydd cyffredinol

Oes rhaid i gwmni fabwysiadu penderfyniad i ddefnyddio gwefan fel ffordd o drefnu i'r cyfrifon fod ar gael i'r aelodau?

Yn gyntaf, mae'n rhaid i'r cwmni wirio'r erthyglau cyfredol i weld beth sydd wedi'i bennu, ac os yw am fanteisio ar y cyfle i beidio â chynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol, rhaid iddo fabwysiadu penderfyniad i ddileu'r ddarpariaeth honno. Ond caiff barhau i gyflwyno'r cyfrifon i'r aelodau yn ôl ei arfer bresennol.

Os na fydd y cwmni'n newid ei erthyglau, a yw hynny yn erbyn y gyfraith gwmnïau?

Nid yw hyn yn orfodol. Dim ond lle bo'r cwmni am fanteisio ar y darpariaethau newydd a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2007, e.e. dyletswyddau cyfarwyddwyr, penderfyniadau a chyfarfodydd, y bydd angen i erthyglau'r cwmni newid.

A gaiff cwmni fabwysiadu set gwbl newydd o erthyglau os nad yw un o'r aelodau'n cytuno ag un rhan?

Wrth i'r cwmni fabwysiadu penderfyniad arbennig i gyflwyno set bwrpasol o erthyglau, bydd angen 75% o'r pleidleisiau sy'n gymwys. Felly, bydd yn dibynnu ar faint o bleidleisiau cymwys sydd gan y cwmni (h.y. faint o aelodau).

Ffurflen 318

Parheir i ddefnyddio Ffurflen 318 i roi gwybod am leoliad contractau gwasanaeth cyfarwyddwyr o dan adran newydd 228, ac am indemniad cyfarwyddwyr o dan adran 237 tan 30 Medi 2009. Ond dim ond wrth i'r gofrestr ddychwelyd i'r swyddfa gofrestredig y dylid defnyddio'r hysbysiad, gan fod rheoliadau o dan 1136 SAIL (Single Alternative Inspection Location) yn cael eu cyflwyno ar 1 Hydref 2009.

Beth yw Ffurflen 318?
Hysbysiad am leoliad contractau gwasanaeth cyfarwyddwyr.

A fydd cwmnïau yn parhau i ddefnyddio Ffurflen 318?
Byddant, bydd cwmnïau'n parhau i ddefnyddio Ffurflen 318 i roi gwybod am leoliad contractau gwasanaeth cyfarwyddwyr o dan adran newydd 228, ac am indemniad cyfarwyddwyr o dan adran 237 tan 30 Medi 2009.

Oes unrhyw gyfyngiadau yng nghyswllt yr hysbysu?
Oes, dim ond wrth i'r gofrestr ddychwelyd i'r swyddfa gofrestredig y dylid

defnyddio'r hysbysiad, gan fod rheoliadau o dan 1136 SAIL (Single Alternative Inspection Location) yn cael eu cyflwyno ar 1 Hydref 2009.

Dyletswydd Cyfarwyddwyr

Beth yw'r newidiadau o ran Dyletswyddau Cyfarwyddwyr?

Am y tro cyntaf, mae dyletswyddau cyffredinol cyfarwyddwyr i'w cwmnïau wedi'u gosod yn gynhwysfawr yn Neddf Cwmnïau 2006. Cafodd dyletswyddau cyffredinol cyfarwyddwyr eu datblygu gan eu bod, hyd yn hyn, yn rhan o'r gyfraith achosion. Gweler gwefan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio www.berr.gov.uk am ganllawiau pellach.

Pa ran o Ddyletswyddau Cyfarwyddwyr sy'n cael ei gweithredu ar 1af Hydref 2007?

ydd Pennod 2 o Ran 10 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ar Ddyletswyddau Cyfarwyddwyr yn cael ei gweithredu ar 1 Hydref 2007 ond mae hyn yn hepgor 'Dyletswyddau Gwrthdrawiad Buddiannau'.

Gweler y gwefannau canlynnol am wybodaeth pellach.(yn Saesneg yn unig)

BERR better regulations home page:
www.berr.gov.uk/bbf/better-regulations/index.html
BERR page on the Companies Act 2006
www.berr.gov.uk/bbf/co-act-2006/index.html
Companies House Website
www.companieshouse.gov.uk